# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau | Dyddiad: | 8 Ionawr, 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 14 IONAWR 2016** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2015 (copi ynghlwm).

**5 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 13 - 30)

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, ar drefniadau arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

**9.35 a.m.**

**EGWYL GYSUR**

**6 ADRODDIAD DIWEDDARU YUNHYLCH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH** (Tudalennau 31 - 34)

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ar y Gwasanaeth TCC presennol a chasgliad y gwaith a wnaed gan y Gweithgor Teledu Cylch Caeedig wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

**10.00 a.m.**

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILLIO** (Tudalennau 35 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

**10.55 a.m.**

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

**11.05 a.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Meirick Davies
Martyn Holland
Pat Jones
Dewi Owens
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Bill Tasker

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl LL18 3DP, Dydd Iau, 26 Tachwedd 2015 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Martyn Holland, Pat Jones, Dewi Owens, Pete Prendergast a/ac Arwel Roberts.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (PG), Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbenigol (AP), Cydlynydd Archwilio (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

**Hefyd yn bresennol:**
Dirprwy Brif Swyddog Tân - Dawn Docx
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Ruth Simmons, a
Sian Clark, Swyddog Archwilio Cymru i arsylwi gweithgareddau.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Bobby Feeley.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd hefyd i staff y Gwasanaeth Tân ac Achub am eu presenoldeb.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Bill Tasker

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2015.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2015 fel cofnod cywir.*

**5 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Dawn Docx a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Ruth Simmons yn bresennol i gyflwyno'r ddogfen ymgynghori "Eich Gwasanaethau, Eich Dewisiadau".

Amlinellodd swyddogion y Gwasanaeth Tân ac Achub lwyddiant eu dull atal rhagweithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran lleihau nifer y galwadau allan ar gyfer y Gwasanaeth o 50%.  Fodd bynnag, roedd lleihad mewn cyllid cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod angen i'r Gwasanaeth gwtogi ar nifer o wasanaethau anstatudol roedd yn ei ddarparu h.y. roedd wedi gostwng y nifer o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (HFSC) a wnaeth yn flynyddol o 30,000 y flwyddyn i 20,000 y flwyddyn, tynnu gwasanaethau achub â llinell (a wneir yn awr gan y Gwasanaethau Achub Mynydd) ac achub anifeiliaid mawr.  Roedd hefyd wedi symleiddio ei strwythur rheoli gweithredol a oedd bellach yn gweithredu gyda 28 rheolwr canol gweithredol ar draws Gogledd Cymru, dyma oedd y nifer lleiaf yr oedd yn cael ei weithredu.  Mae'r polisi sy’n ymwneud â throi allan i Larymau Tân Awtomatig (AFAS) fel mater o drefn wedi cael ei ddiwygio fel rhan o'r mesurau arbed costau.  Mae'r Gwasanaeth yn awr yn troi allan i AFAS mewn adeiladau busnes yn ystod y dydd, oni bai fod galwad frys yn dilyn y larwm. Ers cyflwyno'r polisi hwn nid oedd y Gwasanaeth wedi mynychu 640 o 685 o alwadau AFA a ddaeth i law.  Roedd hyn wedi dod ag arbediad o tua £70K.  Fel rhan o broses pennu cyllideb y llynedd, roedd yr Awdurdod wedi cynnig cynnydd o £1 y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru wrth bennu'r cyfraniad gan bob awdurdod lleol. Ar ddiwedd y broses honno, roedd y cynnydd a godwyd yn cyfateb i 18c y pen o'r boblogaeth.

Yn ei ddogfen ymgynghorol, roedd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cynnig pedwar amcan ar gyfer 2016/17 a thu hwnt:
**Amcan 1:** I barhau â'i waith atal i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi - byddai hyn yn cael ei ariannu gan grantiau Lywodraeth Cymru (LlC) sydd ar gael yn benodol ar gyfer y math hwn o waith
**Amcan 2:** gweithio'n galed i wneud y gyllideb fynd ymhellach fel na fyddai'n rhaid gofyn i gynghorau sir am unrhyw gyfraniadau uwch - byddai hyn yn golygu y byddai'r Awdurdod yn rhewi ei gyllideb am y 3 blynedd nesaf.  Tra'n gwneud hyn, byddai'n gweithio ar y cyd â gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal gyda'r bwriad o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i wireddu’r manteision gorau posibl i bawb dan sylw.
**Amcan 3:** Yn parhau i amddiffyn pob cymuned trwy well cynllunio h.y. cyfateb systemau criwio ac argaeledd criwiau er mwyn darparu’r taeniad gorau posibl o wasanaethau ar gyfer yr ardal gyfan
**Amcan 4:** ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud mwy o bethau ar gyfer cymunedau h.y. cyd-ymateb gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans a chefnogi mentrau diogelwch personol a gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Chwaraewyd fideo byr i'r aelodau i ddangos sut y gellid defnyddio data gyda'r bwriad o wella cynllunio gwasanaethau a darpariaeth ar gyfer y dyfodol.  Byddai darpar fodelau gwasanaeth posibl yn cael eu datblygu gan ddefnyddio fformiwla wedi’i hen sefydlu a ddefnyddir gan nifer o Awdurdodau Tân ac Achub gwledig a chan ystyried Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).  Amlygodd defnyddio’r fformiwla hon fod yna ardaloedd ar draws Gogledd Cymru a fyddai angen sicrwydd o wasanaeth tân ac achub ar adegau penodol o'r dydd.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y swyddogion Awdurdod Tân ac Achub:

- roedd yn ofynnol i'r Gwasanaeth yn ôl y gyfraith i ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
- Nid yw achub o ddŵr yn ofyniad statudol ar hyn o bryd, serch hynny oherwydd nifer y digwyddiadau llifogydd yng Ngogledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod wedi penderfynu parhau gyda darparu'r gwasanaeth hwn;
- Roedd recriwtio diffoddwyr tân rhan amser wedi bod yn anodd dros ben, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Roedd hon yn broblem gyffredin ymysg gwasanaethau tân ac achub yng nghefn gwlad. Ar gyfartaledd roedd trosiant blynyddol o 10% o Staff Dyletswydd Rhan Amser (RDS) yng Ngogledd Cymru. Roedd hon yn gyfradd trosiant llawer uwch nag ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Llawn (WTF). Roedd amryw o resymau dros hyn, hy yr amrywiaeth o sgiliau y mae angen eu meistroli, gofynion ymrwymiad amser a phroblemau wrth gyfuno ymrwymiadau diffodd tân â dyletswyddau proffesiynol a theuluol;
- Roedd profion mynediad a ffitrwydd ar gyfer diffoddwyr tân WTF ac RDS yn union yr un fath;
- tra bo nifer y diffoddwyr tân yn yr ardal wedi gostwng, nid oedd unrhyw WTFs wedi cael eu diswyddo fel rhan o'r broses effeithlonrwydd, serch hynny, roedd staff yn awr yn gweithio yn fwy hyblyg;
- Roedd ymagwedd staffio newydd mwy peripatetig wedi cael ei mabwysiadu er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth ddigon o ddarpariaeth ar gyfer yr ardal gyfan bob amser;
- Roedd y Gwasanaeth wedi ymateb i'r holl alwadau brys a dderbyniwyd;

Aeth Swyddogion yr Awdurdod Tân ac Achub ati i:

- Amlinellu'r broses a ddilynwyd i olrhain cerbydau i ddigwyddiadau ac mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar sail Cymru-gyfan i ddylunio peiriannau tân oddi ar y ffordd addas a allai gario symiau digonol o ddŵr;
- cadarnhau oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân RDS, byddai'r Awdurdod, wrth eu recriwtio, yn sefydlu a fyddai unigolion sydd â diddordeb ar gael i'r Awdurdod pan fyddai'r Gwasanaeth eu hangen;
- Hysbysu'r aelodau o'r gofynion ymrwymiad amser a phellter o orsafoedd tân ar gyfer staff RDS;
- hysbysu am y niferoedd criwio optimwm a diogel i beiriannau tân;
- Cadarnhau y byddai 7 gorsaf dân, yn gweithredu amrywiaeth o systemau dyletswydd, erbyn canol mis Rhagfyr 2015 yn dechrau cynllun peilot cyd-ymateb 6 mis gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans. Roedd hyn yn rhan o gynllun peilot ledled y DU a fyddai'n cael ei defnyddio i hysbysu darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol;
- Ddweud bod trafodaethau a gwaith cwmpasu ar y gweill gyda Heddlu Gogledd Cymru ar gyfleoedd cydweithio 'gwasanaethau golau glas' posibl eraill. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu yng Ngogledd Cymru wedi meddiannu Canolfan Reoli ar y cyd am rai blynyddoedd, ac felly roedd cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd er lles y trigolion.

Pwysleisiodd Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub yr angen i bob cynghorydd sir weithredu fel 'llygaid a chlustiau' ar gyfer eu cymunedau a thynnu sylw'r Gwasanaeth Tân ac Achub am unrhyw unigolion o fewn eu wardiau a chymunedau a allai fod mewn perygl o niwed gan dân neu beryglon eraill, gan y byddai hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i ymgymryd â gwaith rhagweithiol gyda golwg ar gadw'r unigolion hynny yn ddiogel. Tynnwyd sylw aelodau a swyddogion awdurdodau lleol at eitemau fel pecynnau gwely gwrthdan a oedd ar gael oddi wrth y Gwasanaeth gyda'r bwriad o gadw ysmygwyr a oedd yn gaeth i'w gwelyau yn ddiogel rhag tân. Ymgymerodd swyddogion i dynnu'r rhain ac adnoddau eraill sydd ar gael gan y Gwasanaeth Tân ac Achub i sylw'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (SPOA).

Ymgymerodd swyddogion i ddefnyddio tudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer y diben o dynnu sylw trigolion i'r ymarferiad ymgynghori a gofyn iddynt anfon eu sylwadau i'r Awdurdod erbyn 11 Rhagfyr 2015. Aethant hefyd ati i ddosbarthu'r 'Ystadegau Digwyddiadau Swyddfa' a ddarperir i'r Pwyllgor i aelodau'r Pwyllgor.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi'r amcanion a nodir yn y ddogfen ymgynghori 'Eich Gwasanaethau, Eich Dewisiadau' i gynnal gwasanaethau, tân ac achub fforddiadwy rhagorol yng Ngogledd Cymru yn 2016-17 a thu hwnt gan bwysleisio'r angen i sicrhau cyflenwad diogel digonol ar gyfer ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol.*

**Ar y pwynt hwn (10.30 a.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.45 a.m.**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR AMDDIFFYN OEDOLION 2014/2015

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol yr Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion 2014/2015 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu trosolwg i'r Aelodau o'r trefniadau ac arferion diogelu ac amddiffyn oedolion yn lleol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol wrth y Pwyllgor ei bod yn ofynnol i'r Cyngor yn ôl statud i adrodd yn flynyddol ar Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn (POVA). Soniodd hefyd: -

- mai dim ond un Dangosydd Perfformiad cenedlaethol (DP) sy'n ymwneud ag amddiffyn oedolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, pan ddaw i rym ym mis Ebrill 2016, yn rhoi sail statudol i amddiffyn oedolion, yn debyg i'r hyn a roddir i amddiffyn plant ar hyn o bryd. Byddai ei roi ar waith hefyd yn golygu DP ychwanegol ym maes amddiffyn oedolion;
- Am y goblygiadau i'r Cyngor o'r Dyfarniad Goruchaf Lys Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a'r nifer cynyddol o geisiadau awdurdodiad safonol a dderbyniwyd o ganlyniad i'r Dyfarniad;

- bod yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ei Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Blynyddol ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2014/15 wedi nodi POVA fel maes i'w wella. Roedd y Cyngor wedi nodi pedair ardal o fewn y maes amddiffyn oedolion a oedd angen cael eu cryfhau, roedd y rhain wedi'u nodi ym mharagraff 4.15 o'r adroddiad. Roedd Arolygwyr AGGCC wedi cael eu briffio ar y meysydd hyn ac yn ymddangos i fod yn fodlon ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella;
- roedd angen rhywfaint o hyfforddiant pellach i Reolwyr Arweiniol Dynodedig (RhBD) er mwyn magu eu hyder wrth gadeirio cyfarfodydd a oedd yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau:-

- yr anawsterau a gafwyd gan y rhai yn y proffesiynau nyrsio a gofal oherwydd bod y cyfreithiau sy'n ymwneud â nyrsio a gofal yn cael eu newid yn rheolaidd;
- yr angen am gartrefi preswyl / gofal i ystyried cofrestru deuol oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd meddwl yr henoed. Byddai cael cartrefi gyda chofrestriad deuol, fel cartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio, wedyn yn sicrhau na fyddai preswylwyr yn destun straen a chynnwrf wrth i'w hanghenion gynyddu fel na fyddai'n rhaid iddynt symud o un cartref i'r llall er mwyn diwallu eu hanghenion cynyddol;
- yr angen am ddull a arweinir gan y gymuned i ofalu am yr henoed a'r diamddiffyn a'r defnydd posibl o gyfleusterau'r Cyngor, megis llyfrgelloedd, ar gyfer unigolion hŷn, diamddiffyn neu unig i gwrdd â phobl eraill;
- yr angen i aelodau wardiau fod yn wyliadwrus mewn perthynas â cham-drin posib o bobl oedrannus neu ddiamddiffyn yn y gymuned.

Wrth ymateb i gwestiynau'r swyddogion, gwnaeth Aelodau:

- fanylu ar y broses, fel y nodir gan y gyfraith, yr oedd yn rhaid ei dilyn, wrth ddelio â cheisiadau caniatâd safonol o dan y dyfarniad DoLS a chadarnhawyd nad oedd costau pob asesiad DoLS i'w cwrdd gan yr awdurdod lleol;
- Bwysleisio'r pwysau a wynebir gan wasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd ceisiadau DoLS, o ran arian ac adnoddau - oherwydd bod yn rhaid i'r Gwasanaeth ddelio â cheisiadau cyfredol ac ôl-weithredol, ac ar yr un pryd gorfod ymgodymu â thoriadau yn y gyllideb. Nid yw'r broblem yn unigryw i Sir Ddinbych ac yn ddiweddar gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith archwilio'r problemau a'r pwysau a achosir. Roedd eu hadroddiad i fod i gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016;
- cynghorwyd bod angen cynyddol am ofal dementia, tra bod y galw am ofal preswyl yn lleihau;
- Pwysleisiwyd y gallai ymchwiliadau POVA olygu profiadau gofidus i bawb, yn enwedig pan oedd yr honiadau a wnaed yn ffug;
- Cadarnhawyd, er bod y nifer o honiadau cam-drin yn cynyddu ar draws y wlad, achos hyn oedd cynyddu ymwybyddiaeth a arweiniodd at ddigwyddiadau mwy honedig yn cael eu hadrodd.

Cyn diwedd y drafodaeth, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor bod cyflwyniad ar "Unigrwydd a'i Oblygiadau" yn cael ei gyflwyno i sesiwn Briffio’r Cyngor yn y dyfodol.

Gyda golwg ar sicrhau bod y risgiau a nodwyd gan AGGCC yn ymwneud â POVA yn cael sylw, a bod y Cyngor yn ymwybodol o'r mathau o gam-drin honedig a'r lleoliadau lle maent wedi digwydd, penderfynodd y Pwyllgor: -.

***PENDERFYNWYD:-***

a) *Yn amodol ar y sylwadau uchod, dderbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion 2014/2015;*
b) *Ddau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydnabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at Amddiffyn Oedolion a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i’w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant; a*
c) *Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2016 yn manylu ar nifer o ymchwiliadau Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn a wnaed mewn perthynas â gwahanol leoliadau a mathau o wasanaethau, y mathau o gam-drin honedig a brofwyd, y mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â honiadau profedig ac i leihau risgiau i unigolion eraill yn ogystal ag i'r Cyngor ei hun.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i’r Dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o ‘ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau’ wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet wedi’i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a’r cynnydd a wnaed o ran eu gweithrediad wedi ei gynnwys yn Atodiad 4 a rhestr o gynrychiolwyr Archwilio ar Grwpiau Herio Gwasanaeth 2015/2016 wedi’i gynnwys yn Atodiad 5.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’w Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, a chytunwyd ar y newidiadau a’r ychwanegiadau canlynol:-

Cytunodd yr Aelodau y byddai ymweliad â'r Siop Un Stop newydd yn Y Rhyl yn fanteisiol ar ryw adeg yn y dyfodol.

<u>25 Chwefror, 2016: </u>Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn - Adroddiad diweddaru, yn rhoi manylion nifer yr ymchwiliadau POVA a wnaed o ran y gwahanol leoliadau a mathau o wasanaethau, y mathau o gam-drin honedig a brofwyd, y mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â honiadau profedig ac i leihau risgiau i unigolion eraill yn ogystal ag i'r Cyngor ei hun.

Cyfarfod y Dyfodol 2016: Byddai'r adroddiad HASCAS ar Tawelfan ar gael yng ngwanwyn 2016. Pan fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Roedd dau le gwag ar y Rhestr Grŵp Herio Gwasanaethau. Cytunwyd bod:

(i) Martyn Holland yn cynrychioli Archwilio Partneriaethau ar y Gwasanaethau Addysg, a

(ii) Jeanette Chamberlain Jones yn cynrychioli Archwilio Partneriaethau ar y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

Bydd y cyfarfod Archwilio Partneriaethau nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Ionawr 2016

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Ionawr 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Arweinydd y Cyngor / Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad

**Awdur yr Adroddiad:** Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

**Teitl:** Trefniadau arfaethedig y dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a dewisiadau ar gyfer Archwilio

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Trefniadau ar gyfer sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, sydd hefyd yn cynnwys opsiynau posibl ar gyfer archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, yn unol â gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I wneud cais am gefnogaeth Aelodau Etholedig ar gyfer cynnig Byrddau Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych ynghylch trefniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol, ac i Archwilio Partneriaethau wneud argymhelliad ynghylch pa opsiwn i'w ddilyn ar gyfer trefniadau Archwilio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 cefnogi cynnig Conwy a Sir Ddinbych i barhau gyda'u trefniant ar y cyd ac uno i ddod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (yn amodol fod y cynigion o ran uno Conwy a Sir Ddinbych o dan drefnaidau ad-drefnu llywodraeth leol yn mynd rhagddynt).

3.2 cefnogi cynnig Conwy a Sir Ddinbych o gael un Cynllun Lles ar gyfer y ddwy sir.

3.3 cefnogi gweithio tuag at ddyddiad cyhoeddi penodol o Dachwedd 2017 ar gyfer Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych ar y cyd;

3.4 ystyried yr opsiynau ar gyfer archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a amlinellir yn atodiad 2, gan gefnogi parhau gyda'r trefniadau archwilio presennol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol/ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac, yn ddibynnol ar y penderfyniad o ran ad-drefnu llywodraeth leol, i gyflwyno Trefniadau Archwilio ar y Cyd Anffurfiol fel a amlinellir yn Opsiwn 4 o Atodiad 2 o fis Mai 2017.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dod i rym 1 Ebrill 2016 ac yn gosod Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sylfaen Statudol o dan yr enw newydd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn eu cyfarfod ym mis Medi 2015, cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych ar eu dull a ddymunir ar gyfer cyfeiriad y bwrdd yn y dyfodol a'r camau angenrheidiol sydd angen eu cymryd i ffurfio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae’r adroddiad a drafodwyd yn y cyfarfod yn amgaeedig yn Atodiad 1.

4.1 Roedd cynigion allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel a ganlyn:

i. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn dymuno parhau gyda'u trefniant ar y cyd a gweithio tuag at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd - oni bai bod diwygiadau Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (y map uno) yn cynnig fel arall.

ii. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn dymuno cael un Cynllun Lles Partneriaeth tymor hir ar gyfer y ddwy sir.

O ystyried y cysylltiad statudol newydd â chylch gwleidyddol yr Awdurdod Lleol, byddai'r ddau Gyngor yn anelu at gyhoeddi eu Cynlluniau Corfforaethol newydd tua’r un pryd â’r Cynllun Lles ar y cyd arfaethedig, gan sicrhau cysylltiadau systemig rhwng y cynlluniau. Cynigiwyd targed dros dro o Dachwedd 2017 yn y cyfarfod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod gweithio i'r amserlen hon hefyd yn ymarferol i bartneriaid rhanbarthol, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynhyrchu rhaglen waith i bennu a oes modd cyrraedd y targed hwn.

4.2 Cynhaliwyd cyfarfod 5 Tachwedd gyda swyddogion Awdurdod Lleol i drafod ffyrdd o gydweithio i gefnogi un Asesiad Anghenion a Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â hwyluso dull archwilio y cytunir arno. Cytunodd Swyddogion Archwilio Awdurdod Lleol gyflwyno gwerthusiad opsiynau i Gynghorau gytuno ar ddull gweithredu archwilio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler Atodiad 2). Cytunwyd i anelu at gael proses ar waith erbyn mis Mai 2017, gan barhau â phrosesau archwilio presennol tan hynny.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad hwn yn annibynnol ar flaenoriaethau corfforaethol cyfredol ac yn hytrach yn dechrau sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli blaenoriaethau’r tymor etholiadol nesaf. Mae deddfwriaeth yn mynnu y byddai Cynllun Lles sector cyhoeddus yn gweithredu fel sbardun ar gyfer blaenoriaethau sefydliadau unigol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 O dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rhaid i’r awdurdod lleol ddarparu Cefnogaeth weinyddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynigir y bydd y trefniant cyfredol o rannu'r gwaith hwn gyda Chonwy yn parhau, ar yr amod bod cyllid yn ei le.

6.2 Mae swyddogaethau cefnogi ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cael eu darparu ar hyn o bryd drwy gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (sydd yng Nghonwy ar hyn o bryd). Bydd y cyllid ar gyfer y swyddogaeth hon yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016 ac ar hyn o bryd, nid oes dulliau eraill o gyllid wedi cael eu nodi i gefnogi'r gwaith hwn yn y dyfodol.

6.3 Byddai angen ystyried costau unrhyw daliadau a wneir i gadeirydd Pwyllgor Archwilio ar y cyd neu Is-Bwyllgor ar y Cyd. Byddai taliadau o'r fath yn ychwanegol at y gyfran uchaf o'r aelodaeth a all fel arfer gael cyflog uwch, ond penderfyniad y ddau awdurdod fyddai talu swyddi o'r fath ai peidio.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Nid yw'r penderfyniad hwn yn ymwneud â chynllun neu bolisi ac fel y cyfryw, nid oes ganddo unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd drwy drafodaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r cynnig hwn hefyd wedi cael ei anfon at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ar ran CBSC), ac yn dod gerbron Archwilio Partneriaethau ar gyfer cymeradwyaeth CSDd. Nid yw CBS Conwy wedi penderfynu ar ei opsiwn dewisol ar gyfer Archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eto.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad yn nodi dull synhwyrol a chost-effeithiol i sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, gan ystyried gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau y bydd modd darparu swyddogaethau cefnogi yn y dyfodol trwy flaenoriaethu gofynion statudol, hyd yn oed os bydd y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg y bydd yn rhaid dadwneud y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd, os yw Llywodraeth Cymru yn dewis uno Cyngor Sir Ddinbych gyda Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam.

10.2 Y risg y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dod yn anghynaladwy oherwydd diffyg cyllid.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthyglau 6.3.2 (b), 6.3.3 (d) a 6.3.4 (ch)

**Swyddog Cyswllt:** Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Ffôn: 01824 708079

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych
Conwy and Denbighshire Local Service Board

**Appendix 1**

# Well-being of Future Generations Act

## Briefing for Conwy and Denbighshire Local Service Board

DRAFT

### What is it?

The Well-being of Future Generations (Wales) Act is about improving the social, economic, environmental and cultural well-being of Wales. It will formalise the need for public bodies listed in the Act to think more about the long-term, work better with people and communities and each other, look to prevent problems and take a more joined-up approach.[1] This report summarises the requirements of this Act and outlines considerations and recommendations for Conwy and Denbighshire Local Service Board (LSB).

### What is our desired approach?

The Act formalises in statute good practice which can already be evidenced across the two county areas, however it provides opportunity for further developments. Conwy & Denbighshire LSB has already agreed its aspiration for a single plan across both counties. Given the new statutory link to the Local Authority political cycle, both Councils will aim to publish their new Corporate Plans at the similar time as the Conwy & Denbighshire Well-Being Plan, ensuring systemic links between the plans.

The recommendation is, therefore, that the Conwy & Denbighshire Well-Being Plan is published by October 2017. See proposed timetable below:

### Timetable

| | |
|---|---|
| **2015** | |
| **Sept** | Welsh Government consultation on the Statutory Guidance |
| **2016** | |
| **Feb** | Guidance published. |
| **Apr** | Commencement of Act |
| | New Public Services Board (PSB) is formed (replacing the LSB) in line with the governance arrangements required to fulfil the FGA. |
| **Jul** | Future Trends Report, to be published by WG. Compare both counties needs assessments with the future trends report. |
| **Sept -Dec** | Consult on our needs assessment(s) and what we think are the joint and local priorities. |
| **2017** | |
| **Feb** | PSB publishes its own Assessment of Local Well-being (informed by consultation), sharing it with Welsh Ministers, the Commissioner, Auditor General and Scrutiny. |
| **May** | Local Government Elections |
| **May-Sept** | Draft and consult on Conwy & Denbighshire's Well-Being Plan. |

[1] For more information, read the Essentials Guide.

**Appendix 1**

**Oct** Publish Conwy & Denbighshire's Well-Being Plan

## What is different?

All decisions must be understood in the context of the Sustainable Development Principle and how that applies to each of the Well-being Goals; i.e. are the needs of the present being met without compromising the ability of future generations to meet their own needs?

There are seven Well-being Goals, which are:

- A prosperous Wales
- A resilient Wales
- A healthier Wales
- A more equal Wales
- A Wales of cohesive communities
- A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
- A globally responsible Wales

We must consider the long-term economic, social, environmental and cultural impact of our decisions. Our understanding of 'long-term' will vary depending on the issue, but generally speaking 'long-term' is understood to be 35 years, taking us to 2050.

It should be a uniform approach, and not another process or tick-box exercise.

## The Sustainable Development Principle

Each public body, specified in the Act (Part 1, section 6)[2], must carry out sustainable development. In this Act "sustainable development" means the process of improving the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales by taking action, in accordance with the sustainable development principle, aimed at achieving the well-being goals.

There are five things (known as the governance approaches) we need to consider to be able to demonstrate that we have applied the Sustainable Development Principle:

- **Long term**: The importance of balancing short-term needs with the need to safeguard the ability to also meet long-term needs.

[2] For the purposes of this Part and Part 3 of this Act, each of the following persons is a "public body"—
(a) the Welsh Ministers;
(b) a local authority;
(c) a Local Health Board;
(d) the following NHS Trusts—
(i) Public Health Wales;
(ii) Velindre;
(e) a National Park authority for a National Park in Wales;
(f) a Welsh fire and rescue authority;
(g) the Natural Resources Body for Wales;
(h) the Higher Education Funding Council for Wales;
(i) the Arts Council of Wales;
(j) the Sports Council for Wales;
(k) the National Library of Wales;
(l) the National Museum of Wales.

DRAFT

- **Prevention**: How acting to prevent problems occurring or getting worse may help public bodies meet their objectives.

- **Integration**: Considering how the public body's well-being objectives may impact upon each of the well-being goals, on their other objectives, or on the objectives of other public bodies.

- **Collaboration**: Acting in collaboration with any other person (or different parts of the body itself) that could help the body to meet its well-being objectives.

- **Involvement**: The importance of involving people with an interest in achieving the well-being goals, and ensuring that those people reflect the diversity of the area which the body serves.

Each public body has a duty to meet the requirements of the Act in its own right and, if they are a member of the Public Services Board (PSB), they must also deliver the requirements of the Act in the context of a local well-being plan.

## The Good News

Both counties are already doing some of what the Act requires:

**Denbighshire:**

- Denbighshire has a Wellbeing Plan and its Assessment of Local Needs is a live website that is continually updated.
- Under the auspices of the Wellbeing Plan, Denbighshire is trialling an approach to community engagement called *People to People*. The aim is to create a space for people to think about and share their vision of their community and contribute to a plan to achieve their vision.

The main output from the People to People initiative is a new Community Plan. It will include:

- a proper assessment of assets, needs and challenges for the community (built in the first instance by the Needs Assessment group, capturing intelligence from existing plans but informed through the project by the community engagement),
- a vision for Corwen which has been developed by the (informed) community and
- a list of actions to achieve that vision which will be undertaken by the community but also, where necessary, the public sector.

Ultimately – if the pilot proves effective - every community in Denbighshire would have one of these and they would inform our Well-being Plan and public sector partners' Corporate Plans going forward. In short, these Community Plans would be the foundations of strategic planning going forward. This kind of approach is good practice and meets the requirements of the Act.



DRAFT

## Appendix 1

Early learning from this pilot is the challenge of appropriate involvement across all relevant partners.

**Conwy:**

- Conwy's Corporate Plan is outcome focused and most of the WBFG Act Principles can be aligned to the Corporate Plan outcomes.
- Conwy produces an annual *Key Drivers* report, providing a picture of the key social, economic, environmental and political drivers to be considered by Conwy County Borough Council when producing strategic plans. There is also a research website which holds key statistics for the county. Work is currently ongoing to ensure that the Council is ready to meet the needs assessment requirements for both the Social Care Act and the Wellbeing of Future Generations Act.
- Conwy has a Sustainability Strategy, this was initially published in 2012 in response to Welsh Government Sustainable Development scheme 'One Wales: One Planet.' The strategy set out 7 principles and aims to demonstrate how the decisions of Conwy corporately are impacting on sustainability within the county. Conwy CBC established a Sustainability Forum to support this strategy. Currently the strategy is under review to ensure the commitments remain aligned to the Wellbeing of Future Generations Act and are within financial capabilities.
- The Strategic Equality Plan is currently being reviewed.
- Conwy has an Engagement Strategy and Community Involvement Database to record and share community feedback. There is now much improved analysis of complaints to ensure lessons are learned.
- The new integrated Performance Management software, CAMMS will enable better links to be made between strategic plans and there is potential to purchase another module to cater for partnership working.

In preparation for the Act, Conwy CBC have also begun,

- Developing an impact assessment process to assess the impact of policies and projects / programmes against the authority's sustainability principles. Training on the new process will be provided to relevant staff.
- Reviewing and updating a number of our strategic plans, including our community plan – One Conwy. The revised version will evidence how the 8 outcomes within the plan are aligned to the WFG goals. Likewise reference will be made in future reviews of the Corporate plan.

DRAFT

**Appendix 1**

## Recommendations

| | Impact | | Recommendation |
|---|---|---|---|
| Public Service Boards | The Act establishes that each Local Authority area in Wales is required to have a PSB. However the Act allows for the creation of a joint PSB, comprising of two or more authorities.<br><br>Two or more public services boards may agree to merge if they consider it would assist them in contributing to the achievement of the well-being goals. But boards may merge only if:<br><br>(a) the same Local Health Board is a member of each board seeking or being directed to merge, and<br>(b) no other Local Health Board is a member of any of those boards. | 1. | Propose that Conwy and Denbighshire continue with their joint arrangement and merge to become the Conwy and Denbighshire Public Service Board. |
| Membership | Members must include: the LA (Leader/Mayor and head of the authority's paid service designated under section 4 of the Local Government and Housing Act 1989 (c.42)); LHB (Chair/Chief Officer or both); NWFRA (Chair/Chief Officer or both); Natural Resources Wales (CE). The quorum of a public services board meeting is all of its members.<br><br>The PSB must invite the following to participate: Welsh Ministers, Chief Constable for the area; Police and Crime Commissioner; Probation Services; at least one body representing voluntary organisations. Others can be invited as appropriate. These will be known as 'invited participants' not 'members' | 2. | PSB members to be identified and a workshop to be delivered in February 2016 in readiness of an inaugural PSB meeting in April 2016. |

DRAFT

**Appendix 1**

| | | |
|---|---|---|
| | PSBs can invite partners who carry out public functions.[3]<br><br>The new PSB must be established by July 2016, and it must hold its first meeting within 60 days of being established, chaired by the local authority.<br><br>The new LA map for Wales may affect the new PSB, but not until 2020. | |
| Meetings | Mandatory meeting after the date of each ordinary election held under section 26 of the Local Government Act 1972 (c.70) (election of councillors). | |
| Terms of Reference | To be agreed by the PSB at its first meeting. The aim of each PSB is to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of its area in accordance with the sustainable development principle.<br><br>The ToR must cover, in summary, the procedure to be followed at meetings; a schedule; procedure for inviting partners; proposals for establishing sub-groups; procedures for resolving disagreements between members; anything else considered to be appropriate.<br><br>ToR must be reviewed at its mandatory meetings following an election, as above, and at any time deemed necessary. | |
| Sub-groups of PSB | Must include at least one member of the PSB, and any invited participant or partner. | 3. The new PSB should map any current sub-groups in each county. |

[3] A community council; Public Health Wales; a Community Health Council; a National Park authority for a National Park in Wales; the Higher Education Funding Council for Wales; an institution in the further education sector or the higher education sector; the Arts Council of Wales; the Sports Council for Wales; the National Library of Wales; the National Museum of Wales.

DRAFT

**Appendix 1**

| | | |
|---|---|---|
| Administrative Support | Must be provided by the local authority. | 4. Current arrangements to continue. |
| Overview and Scrutiny | LA arrangements must be in place for the PSB. Members of PSBs can be called upon to attend and recommendations must be sent to Welsh Ministers, the Commissioner and the Auditor General for Wales. | 5. Confirm scrutiny arrangements. |
| Assessment of local well-being | The PSB must publish an assessment of local economic, social, environmental and cultural well-being in its area as a whole, to include (in brief) community and area analysis of well-being in PSB areas; predictions of likely future trends in economic, social, environmental and cultural Well-being; reference to national indicators. It may include an assessment of equality; vulnerable populations; the needs for care and support (SSWB Act) etc. The PSB must take into account UK report on climate change; sufficiency of nursery education, childcare sufficiency, play opportunities, assessment for the purposes of SSWB Act, CSP assessment (including substance misuse, reoffending).<br><br>The assessment must be consulted upon with specified groups as a minimum.<br><br>Denbighshire's needs assessment website is a live entity being continually updated. All partners have a role that they can play here, and it will be to their benefit when it comes to shaping service delivery or applying for funding.<br><br>Conwy CBC have been involved in the WG working group which is drafting the Code of Practice for producing the Needs Assessment as part of the Wellbeing of Future Generations Act. This has helped Conwy keep abreast of what the | 6. Denbighshire to continue to populate its live needs assessment. Partners to support the activities that must take place to fulfil the statutory requirements. Conwy will continue to update the research website and will consider the most efficient way to support both WFG Act and the SS Act.<br><br>7. PSB to consider the Commissioner's future trends report (likely to be published in July 2016). |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | requirements will be for the authority.<br><br>Conwy CBC has also been reviewing the different requirements for a needs assessment for the Social Services Act, the Wellbeing of Future Generations Act, Building Resilient Communities and Tackling Poverty programme and corporate strategic planning. Officers are starting to scope out what work is required for each assessment so we can prevent any duplication and coordinate our work appropriately. | |
| Well-being Plan | The PSB's well-being objectives to meet the well-being goals must be published in a local Well-being plan. PSBs must consider the impact of the objectives on each public body and consider any detrimental impacts one objective might have on another.<br><br>PSBs must engage and consult, collaborate and deploy resources in a way that contributes to each other's objectives, preventing problems occurring or getting worse.<br><br>The plan may include the well-being objectives undertaken by one or more members of the PSB, and/or a combination of invited partners.<br><br>There must be an explicit connection between the Well-being Plan and the Well-being Assessment, with timescales, an outline of steps to be taken, an annual report and an assessment of how well the last plan went (link to SSWB Act).<br><br>We must seek the advice of the Commissioner and take account | 8. Publish a joint Conwy & Denbighshire Well-Being Plan in October 2017 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | of the Commissioner's report. The draft plan must be consulted upon with specified groups as a minimum.<br><br>Amendments can be made to published plans, but we must consult specified persons.<br><br>The Commissioner For Sustainable Futures has commented favourably on Denbighshire's Well-being Plan. Notwithstanding any lessons learned from the current plan, this model should be considered for continuation in the future PSB's well-being plan.<br><br>Annual reports to be published no later than 14 months after publication of the local well-being plan. | |
